# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 27/01/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gwasanaethau Iechyd Meddwl

**C11 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed? OAQ(3)1374(HSS)

**Edwina Hart:** Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd grŵp o randdeiliaid arbenigol yn cael ei sefydlu i drefnu rhaglen genedlaethol ar gyfer CAMHS. Bydd hyn, ochr yn ochr â'r ymrwymiad a wnaethom yng nghytundeb 'Cymru'n Un', y cyllid ychwanegol o £6.9 miliwn dros dair blynedd, a'r targedau a osodwyd i'r GIG drwy'r fframwaith gweithredu blynyddol yn sicrhau bod CAMHS yn amserol, yn effeithiol ac wedi'u cyd-gysylltu.

### Ysbyty Brenhinol Gwent

**C12 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau cardiaidd yn Ysbyty Brenhinol Gwent? OAQ(3)1382(HSS)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn disgwyl i Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan gynllunio, ariannu a darparu gwasanaethau cardiaidd, gan gynnwys y rheini yn Ysbyty Brenhinol Gwent, yn unol â'r safonau a bennwyd yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Clefyd y Galon.

### Rhaglen Brechu yn erbyn Canser Ceg y Groth

**C13 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen brechu yn erbyn canser ceg y groth? OAQ(3)1402(HSS)

**Edwina Hart:** Nifer y merched a dderbyniodd ddos 1 a 2 yn ystod 2008-09 oedd 88 y cant ac 87 y cant yn y drefn honno o ferched ym mlwyddyn ysgol 8, a 45 y cant a 35 y cant o'r rhai a fydd yn 18 oed rhwng Medi 1990 ac Awst 1991. Bydd yr ystadegau ar gyfer y rhai a gafodd eu geni rhwng 1 Medi 1991 a 31 Awst 1995 ar gael ym mis Mawrth.

### Y GIG

**C14 Andrew R.T. Davies:** Pa gamau a gymerir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella profiad cleifion y GIG o ysbytai? OAQ(3)1365(HSS)

**Edwina Hart:** Yr ydym yn gweithio'n galed i wella profiadau cleifion o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ac yn datblygu nifer o fesurau i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn ddiogel ac

yn effeithlon i bawb yng Nghymru.

### Gwasanaethau Iechyd Meddwl

**C15 Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc? OAQ(3)1372(HSS)

**Edwina Hart:** Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae grŵp o randdeiliaid arbenigol i gael ei sefydlu i drefnu rhaglen genedlaethol ar gyfer CAMHS. Bydd hyn, yn ogystal â'r ymrwymiad a wnaethom yng nghytundeb 'Cymru'n Un', y cyllid ychwanegol o £6.9 miliwn dros dair blynedd a'r targedau a osodwyd i'r GIG drwy'r Fframwaith Gweithredu Blynyddol yn sicrhau bod CAMHS yn amserol, yn effeithiol ac wedi'i gyd-gysylltu.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### Polisiau Adfywio

**C7 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lwyddiannau polisïau adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghaerffili? OAQ(3)1352(ECT) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Yr ydym yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid i adfywio Caerffili fel rhan o raglen ehangach Blaenau'r Cymoedd. Mae dau gynllun adfywio ardal cyfannol wedi'u nodi ar gyfer y rhanbarth gan yr Awdurdod Lleol, sy'n cynnwys gwelliannau i ganol tref Bargoed. Bydd y rhanbarth hefyd yn elwa ar brosiectau strategol, sydd â'r nod o helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd am waith, ac i ddatblygu twristiaeth, fel rhan o ymgyrch Y Cymoedd—Calon ac Enaid Cymru.

*Atebwyd cwestiwn 8 yn y Siambr a thynnwyd cwestiwn 9 yn ôl.*
*Atebwyd cwestiynau 10 i 13 yn y Siambr.*

**C14 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysylltiadau trafnidiaeth rhwng y de a'r gogledd? OAQ(3)1361(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn cynnwys nifer o gynlluniau i wella ansawdd a diogelwch coridorau ffyrdd a rheilffyrdd rhwng y gogledd a'r de, a'u gwneud yn fwy dibynadwy. Mae hyn yn cynnwys ffordd osgoi Porthmadog, lle mae'r gwaith adeiladu i ddechrau'r wythnos hon.

### Gyrru Peryglus

**C15 Ann Jones:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i leihau'r damweiniau a achosir gan yrru peryglus yng Nghymru? OAQ(3)1353(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym yn cydweithio'n agos gyda'r heddlu, yr awdurdodau lleol a sefydliadau diogelwch ar y ffyrdd, i ddelio â defnydd anghyfrifol o'r ffyrdd, gan gynnwys gyrru'n beryglus. Yr ydym hefyd yn cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol dros

ddiogelwch ar y ffyrdd, megis yfed a gyrru, gyrru ar gyffuriau, goryrru, defnyddio ffonau symudol a pheidio â gwisgo gwregysau.